**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 15 Medi 2014 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2pm.

PRESENNOL

| | |
|---|---|
| Cynghorwyr: | |
| J R Skelland (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| A Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M Reece | Cyngor Sir y Fflint |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| D Simmons | Cyngor Sir Ddinbych |
| O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| G G Williams | Cyngor Gwynedd |

HEFYD YN BRESENNOL

D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); R Simmons (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); G Owens (Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro); K V Williams (Adran Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); C Dingle (Rheolwr Cyllid); Ll Gutierrez-Jones (Rheolwr Adnoddau Dynol); S Redwood (KPMG); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd R Wright | Cyngor Gwynedd |
| C Everett | Clerc a Swyddog Monitro |
| K Finch | Trysorydd |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION

2.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mehefin 2014 i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod diwethaf.**

3 MATERION YN CODI

3.1 (5.2) Astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru ar Gyflawni â Llai – rhoddodd y DBST wybod i'r Aelodau fod trafodaethau pellach rhwng yr ATAau yng Nghymru a'r Swyddfa wedi arwain at gytuno y bydd y Swyddfa yn astudio ac yn dadansoddi'r gwahanol systemau criwio newydd a gyflwynwyd ledled Cymru.

3.2 (11) Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân – gofynion llywodraethu newydd – atgoffwyd yr Aelodau gan y DBST fod y Cyng. J R Skelland, y Cyng. B Dunn a'r Cyng. W T Owen wedi eu henwebu i sefyll ar y Bwrdd Pensiynau Lleol, a nodwyd y bydd diwrnod hyfforddi ar gyfer Cymru yn cael ei gynnal yn Llandrindod ar 30 Medi. Ar yr adeg hon bu'r Aelodau'n sôn am ailgyflogi staff sydd wedi ymddeol. Cytunwyd y byddai'r DBST yn trafod y mater gyda'r PST a Chadeirydd yr Awdurdod, ac y byddai rhagor o wybodaeth am y polisi'n cael ei darparu yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio.

4 RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION ARIANNOL

4.1 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno er mwyn i'r Pwyllgor Archwilio adolygu'r adroddiad cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân. Un o ofynion Cod Ariannol CIPFA yw bod Dangosyddion Ariannol yn cael eu monitro, a hynny'n rheolaidd a chyn cymeradwyo unrhyw newidiadau mawr. Hefyd, rhaid i newidiadau i fenthyciadau tymor hir a phartïon i gontract gael eu hadrodd fel rhan o god CIPFA ar Reoli'r Trysorlys. Bu rhai newidiadau ers i'r Awdurdod gymeradwyo'r strategaeth rheoli'r trysorlys yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2014; roedd amcangyfrifon y dangosyddion ariannol ar gyfer 2014-15 wedi cael eu diwygio hefyd, ac roedd angen nodi benthyciadau newydd a newidiadau i'r rhestr o bartïon i gontract.

4.2 Rhoddodd Sandra Forrest gyflwyniad yn y cyfarfod a rhoi taflenni i'r Aelodau gyda gwybodaeth ychwanegol ynghylch y rhaglen gyfalaf, benthyciadau a chyfraddau llog.

4.3 Atebodd Ms Forrest gwestiynau'r Aelodau, a chadarnhawyd bod yr Awdurdod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a rheoleiddiol sy'n cyfyngu ar lefel y risg sy'n gysylltiedig â'i weithgareddau rheoli'r trysorlys.

4.4 Oherwydd bod y rhan fwyaf o fenthyciadau a buddsoddiadau tymor byr yn cael eu gwneud dan enw CBS Conwy, cytunwyd yn dilyn yr archwiliad o gyfrifon mai CBS Conwy fydd yr un sy'n rhoi ac yn cael benthyg y trafodion hyn; golygu newid gweithdrefn y mae hyn, ac nid yw'n newid y cyfraddau a delir nac a dderbynnir.

4.5 O ran gwariant cyfalaf yr Awdurdod, mae'n ddarbodus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy fel y gwelwyd gan y dangosyddion ariannol a gynhyrchwyd a'r costau ariannu cyfalaf. Atgoffwyd yr Aelodau gan y DBST y byddai'r gwariant ar y Rhaglen Gyfalaf yn parhau'n uchel am yr ychydig flynyddoedd nesaf yn unol â'r strategaeth tymor hir i wella'r portffolio eiddo. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd yr Awdurdod wedi cynnal yr holl brosiectau mawr erbyn 2019-20 a bydd y gwariant angenrheidiol ar gyfer gwaith cynnal a chadw gan leihau maint y rhaglen gyfalaf yn sylweddol yn y dyfodol.

4.6 **PENDERFYNWYD argymell bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn gwneud y canlynol:**
**(i) cymeradwyo'r Dangosyddion Ariannol diwygiedig;**
**(ii) nodi'r Partïon i Gontract;**
**(iii) nodi'r benthyciadau newydd.**

5 DATGANIAD O GYFRIFON

5.1 Cafodd y datganiad archwiliedig o gyfrifon 2013-14 a'r datganiad llywodraethu blynyddol eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio gan ei fod wedi cael y dasg o sicrhau bod craffu effeithiol yn digwydd ar yr adroddiadau ariannol, a'i fod yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod ar sail eu canfyddiadau. Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Diwygio) (Cymru) 2010 rhaid cymeradwyo'r datganiadau erbyn 30 Medi.

5.2 Atebodd Ms Forrest gwestiynau'r Aelodau a mynd drwy'r datganiad o gyfrifon. Nodwyd bod y newidiadau wedi eu gwneud yn unol â chanfyddiadau'r archwiliad, fel a ganlyn:
- cywiro'r cyfalaf a gyllidir drwy'r refeniw i Gronfa a Glustnodwyd o'r gronfa Derbyniadau Cyfalaf - £543,000 (Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd)
- cywiro'r addasiad i gyfrifon Prydles Cyllid – rhoddwyd cyfrif ddwywaith yn y ffi dibrisio - £125,000 (Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd)

5.3 O ran materion pensiynau, esboniodd Ms Forrest beth yw ymrwymiad pensiynau'r Awdurdod a'r ddau fath o gynlluniau pensiwn. Nodwyd mai cynllun sy'n cael ei ariannu'n llwyr yw'r cynllun Llywodraeth Leol a bod y cyfraniadau'n cael eu gosod i gwrdd â 100% o'r ymrwymiadau. Cynllun sydd heb fod yn cael ei ariannu yw cynllun y diffoddwyr tân, ac mae'n cael ei weithredu y tu allan i'r cyfrif refeniw fel cronfa bensiwn ar wahân, a sefydlwyd i gynorthwyo i reoli'r gyllideb; nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn cwrdd ag unrhyw ddiffygion yn y gronfa. Ar wahân i'r cronfeydd ceir pensiynau'r System RDS ar sail afiechyd ac anafiadau. Bu'r Aelodau'n trafod cynllun pensiwn y diffoddwyr tân a gofyn i'r Pwyllgor Archwilio gael cyflwyniad ar y cynllun pensiwn newydd ar ôl iddo gael ei roi ar waith yn 2015.

5.4 Cafodd yr Aelodau wybod am yr oedi mewn perthynas ag uwchraddio gorsaf Glannau Dyfrdwy gan fod y prif gontractwr wedi mynd i ddwylo'r derbynwyr. Er y bydd costau ychwanegol o bosibl oherwydd y broses aildendro sydd ei hangen, rhoddodd y DBST sicrwydd i'r Aelodau y byddai'r prosiect yn mynd rhagddo ac mae disgwyl i'r gwaith ailgychwyn yn ystod y ddau fis nesaf. Cadarnhawyd hefyd fod yr orsaf yn dal yn weithredol a bod y diffoddwyr tân yn dal i ymateb oddi yno.

5.5 Wrth astudio'r ddogfen, mynegodd y Cadeirydd bryder ynghylch y taliadau cydnabyddiaeth i aelodau, ac yn benodol gofnod presenoldeb gwael rhai o'r aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod. Cadarnhawyd bod y Clerc yn anfon llythyr at yr holl Brif Weithredwyr ym mis Ebrill bob blwyddyn i nodi presenoldeb yr aelodau. Cytunwyd i ddarparu copi o'r llythyr hwn yn uniongyrchol i'r aelodau er mwyn iddynt allu monitro cynrychiolaeth eu cynghorau eu hunain ar yr Awdurdod.

5.6 **PENDERFYNWYD**

**(i) argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub fod y Datganiad archwiliedig o Gyfrifon 2013-14 yn cael ei gymeradwyo, a nodi'r Llythyr Sylwadau a anfonir i'r Archwilwyr Allanol;**

**(ii) cytuno y bydd y datganiad o gyfrifon yn cael rhestr eirfa fel atodiad i'r ddogfen yn y dyfodol;**

**(iii) gofyn am gyflwyniad ar y cynllun pensiwn newydd ar ôl iddo gael ei gyflwyno yn 2015.**

6 ARCHWILIAD O'R DATGANIADAU ARIANNOL

6.1 Roedd Siân Redwood o KPMG yn bresennol i gyflwyno'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r Aelodau. Roedd y ddogfen yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau'r Archwiliad o gyfrifon 2013/14. Cadarnhaodd Ms Redwood y byddai'r cyfrifon yn cael eu cyflwyno fel rhai diamod, nid oedd unrhyw newidiadau sylweddol i'w gwneud ac ni chanfuwyd unrhyw wendidau mawr. Nodwyd y byddai KPMG a Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i fonitro prosiect tân ac ambiwlans Wrecsam a phrosiect gorsaf Glannau Dyfrdwy.

6.2 **PENDERFYNWYD nodi'r archwiliad o'r datganiadau ariannol.**

7 RHEOLI PRESENOLDEB A SALWCH GWEITHWYR

7.1 Rhoddodd Llinos Gutierrez-Jones, Rheolwr Adnoddau Dynol gyflwyniad ynghylch y modd y mae'r Gwasanaeth yn rheoli absenoldeb salwch. Esboniodd y Rheolwr AD fod pedair her y mae'r Gwasanaeth yn eu hwynebu o ran rheoli presenoldeb, gan gynnwys y canlynol:

- mae natur unigryw y rolau a gyflawnir gan weithwyr y Gwasanaeth yn rhoi gofynion emosiynol a chorfforol ar y gweithwyr
- mae lefel briodol o ffitrwydd corfforol yn elfen allweddol er mwyn sicrhau bod diffoddwyr tân yn effeithiol ac er mwyn diogelu eu hiechyd a'u diogelwch.

7.2 Mae'r Gwasanaeth yn defnyddio gwahanol ymyriadau i'w gynorthwyo i reoli absenoldeb salwch, gan gynnwys y cynllun cefnogi cydweithwyr, trafod ar ôl digwyddiadau, a hybu iechyd. Nodwyd mai canran gyfartalog absenoldeb salwch yn y Gwasanaeth yw 4.75%.

7.3 Atebodd y PSTC Simmons a Rheolwr Adnoddau Dynol wahanol gwestiynau gan yr Aelodau a darparu rhagor o wybodaeth am y safon ffitrwydd ar gyfer Cymru; mae'r cyrff cynrychioliadol hefyd yn cefnogi'r safon ffitrwydd gan fod cydnabyddiaeth yn cael ei rhoi i'r ffaith fod iechyd, diogelwch a lles pob diffoddwr tân yn bethau hollbwysig.

7.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**